Dŵr Cymru
Welsh Water

# Cynllun Taliadau'r Gwasanaethau Datblygu

## Atodiad: Y Gwasanaethau sy'n Agored i Gystadleuaeth a'r rai Nad Ydynt yn Agored i Gystadleuaeth

2024-25



dwrcymru.com

WWDEV 0700

# Atodiad: Y Gwasanaethau sy'n Agored i Gystadleuaeth a'r rhai Nad Ydynt yn Agored i Gystadleuaeth

## Gwasanaethau sy'n Agored i Gystadleuaeth

Gall datblygwyr ddewis pwy sy'n cyflawni rhai gweithgareddau penodol ar eu safleoedd. Gelwir hyn yn waith sy'n agored i gystadleuaeth, ac mae'n golygu y gall y cwmni dŵr neu endid arall gyflawni'r gwaith. Er mwyn bodloni ein rhwymedigaethau statudol, bydd angen i ni gyflawni'r gwaith ein hunain mewn rhai achosion. Mae'r ddogfen yma'n darparu rhestr o'r gwasanaethau sy'n agored i gystadleuaeth, hynny yw, y rhai sy'n gallu cael eu cyflawni gan eraill. Mae'r taliadau perthnasol i'w gweld yng Nghynllun Taliadau'r Gwasanaethau Datblygu a gyhoeddir ochr yn ochr â'r ddogfen hon.

Yn ogystal â'r opsiynau isod, gall gwasanaethau sy'n ymwneud â darparu prif bibellau dŵr a charthffosydd newydd gael eu darparu gan gwmnïau trydydd parti. Penodeion Newydd ac Amrywiadau (NAVs) yw'r enw ar y rhain. Mae rhagor o fanylion am y farchnad NAV ar wefan Ofwat.

## Dŵr

| Tâl | Disgrifiad | Gwasanaeth | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| **Modelu'r rhwydwaith dŵr** | | Dim Cystadleuaeth | Lle bo posibilrwydd fod angen ategu'r rhwydwaith o ganlyniad i ddatblygiad, mae'n bosibl y bydd angen cyflawni gwaith modelu, a gaiff ei ariannu gan y datblygwr, i ganfod effaith a chwmpas unrhyw waith o'r fath. |
| **Gosod pibellau dŵr** | | Cystadleuaeth | Mae gosod prif bibellau dŵr yn weithgaredd sy'n agored i gystadleuaeth lle nad oes yna unrhyw waith ategu'n cael ei gyflawni yn rhan o'r cynllun, a lle nad oes angen i Ddŵr Cymru gyflwyno hysbysiad i fynd ar dir. Os yw'r datblygwr yn gosod y brif bibell, gwneir hyn o dan Gytundeb Hunan-osod fel rheol. |
| **Gwyriadau dŵr** | | Cystadleuaeth | Rhaid i'r gwaith gael ei gyflawni gan Ddarparydd Hunan-osod achrededig o dan gytundeb hunan-osod. Gellir ystyried bod yr elfennau o'n gwaith sy'n effeithio ar ein rhwydwaith yn uniongyrchol yn waith nad yw'n agored i gystadleuaeth, a bydd angen i Ddŵr Cymru gyflawni'r elfennau hyn. Os oes Darparydd Hunan-osod achrededig yn cyflawni'r gwaith, codir tâl gweinyddol yn hynny o beth. |
| **Cysylltiadau dŵr** | | Cystadleuaeth | Rhaid i'r gwaith gael ei gyflawni gan Ddarparydd Hunan-osod achrededig o dan gytundeb hunan-osod. Gellir ystyried bod yr elfennau o'n gwaith sy'n effeithio ar ein rhwydwaith yn uniongyrchol yn waith nad yw'n agored i gystadleuaeth, a bydd angen i Ddŵr Cymru gyflawni'r elfennau hyn. Os oes Darparydd Hunan-osod achrededig yn cyflawni'r gwaith, codir tâl gweinyddol yn hynny o beth. |
| **Ymateb ysgrifenedig cyn cynllunio** | | Dim cystadleuaeth | |

## Dŵr parhad

| Tâl | Disgrifiad | Gwasanaeth | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| **Arolygon o leoliad asedau - dŵr** | Ymweliad safle ac arolwg ar ben y tir (anymwthiol) | Cystadleuaeth | |
| | Cyflawni arolwg o brif bibell ddŵr at ddibenion canfod lleoliad | Dim Cystadleuaeth | |
| | Ymchwiliadau twll turio | Cystadleuaeth | Bydd hyn yn llwyr seiliedig ar ein disgresiwn ni, a'r rhagdybiaeth arferol yw y bydd angen i Ddŵr Cymru gyflawni'r gwaith i amddiffyn y rhwydwaith a'r ased hefyd. Lle bo rhywun heblaw Dŵr Cymru'n cyflawni'r gwaith, bydd hyn yn dibynnu ar asesiadau priodol o risg, datganiadau o'r dulliau o weithredu a thystiolaeth o hyfedredd yr endid sy'n bwriadu cyflawni'r gwaith. |
| | Ffi goruchwylio | Dim Cystadleuaeth | |
| **Cysylltiadau dŵr newydd** | Ffi gweinyddol | Dim Cystadleuaeth | |
| | Cysylltiadau | Cystadleuaeth | Codir taliadau hunan-osod. |
| | Mynediad i dir | Cystadleuaeth | Dylid nodi y byddai hyn yn agored i gystadleuaeth petai'r datblygwr yn dewis cyflawni'r cynllun o dan drefniant hunan-osod yn unig. |
| | Cau ffordd | Cystadleuaeth | Dylid nodi y byddai hyn yn agored i gystadleuaeth petai'r datblygwr yn dewis cyflawni'r cynllun o dan drefniant hunan-osod yn unig. |
| | Ymweliad aflwyddiannus | Dim Cystadleuaeth | |
| | Trwydded i agor ffordd | Cystadleuaeth | Dylid nodi y byddai hyn yn agored i gystadleuaeth petai'r datblygwr yn dewis cyflawni'r cynllun o dan drefniant hunan-osod yn unig. |
| | Rheolaeth ychwanegol ar draffig | Cystadleuaeth | Dylid nodi y byddai hyn yn agored i gystadleuaeth petai'r datblygwr yn dewis cyflawni'r cynllun o dan drefniant hunan-osod yn unig. |
| | Archwiliad o ansawdd cysylltiad newydd | Dim Cystadleuaeth | |
| | Archwiliad aflwyddiannus ar ffos | Dim Cystadleuaeth | |
| | Gwaith adfer | Dim Cystadleuaeth | |

## Dŵr gwastraff

| Tâl | Disgrifiad | Gwasanaeth | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| **Modelu'r rhwydwaith carthffosiaeth** | | Dim Cystadleuaeth | Lle bo posibilrwydd fod angen ategu'r rhwydwaith o ganlyniad i ddatblygiad, mae'n bosibl y bydd angen cyflawni gwaith modelu, a gaiff ei ariannu gan y datblygwr, i ganfod effaith a chwmpas unrhyw waith o'r fath. |
| **Gosod carthffos newydd** | | Cystadleuaeth | Mae gosod carthffos yn weithgaredd sy'n agored i gystadleuaeth lle nad oes yna unrhyw waith ategu'n cael ei gyflawni yn rhan o'r cynllun, a lle nad oes angen i Ddŵr Cymru gyflwyno hysbysiad i fynd ar dir. Os yw'r datblygwr yn gosod y garthffos, gwneir hynny o dan Gytundeb Hunan-osod fel rheol. |
| **Gwyro carthffosydd a draeniau ochrol** | | Cystadleuaeth | Lle bo'r gwaith yn cael ei gyflawni gan Gwsmer Datblygu, bydd Dŵr Cymru'n codi tâl goruchwylio yn unig. Nid yw'r ffi goruchwylio'n agored i gystadleuaeth. O dan rai amgylchiadau, gallwn fynnu taw ni sy'n cyflawni'r gwaith neu ran o'r gwaith ein hunain er mwyn amddiffyn ein rhwydwaith, lle bo gweithrediad ein rhwydwaith yn effeithio'n uniongyrchol ar y gwaith gwyro, neu lle bo risgiau amgylcheddol. Ni fydd unrhyw daliadau cyfreithiol cysylltiedig yn agored i gystadleuaeth chwaith. |
| **Cysylltu carthffosydd** | | Cystadleuaeth | Lle bo'r gwaith yn cael ei gyflawni gan Gwsmer Datblygu, bydd Dŵr Cymru'n codi tâl goruchwylio yn unig. Nid yw'r ffi goruchwylio'n agored i gystadleuaeth. O dan rai amgylchiadau, gallwn fynnu taw ni sy'n cyflawni'r gwaith neu ran o'r gwaith ein hunain er mwyn amddiffyn ein rhwydwaith, lle bo gweithrediad ein rhwydwaith yn effeithio'n uniongyrchol ar y gwaith gwyro, neu lle bo risgiau amgylcheddol. |
| **Ymateb ysgrifenedig cyn cynllunio** | | Dim Cystadleuaeth | |

## Dŵr gwastraff parhâd

| Tâl | Disgrifiad | Gwasanaeth | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| **Arolygon o leoliad asedau – gwastraff** | Arolwg CCTV | Cystadleuaeth | Yn amodol ar dystiolaeth o achrediad. |
| | Ymchwiliadau twll turio | Cystadleuaeth | Os nad yw'n brif bibell dan bwysedd, ac os nad oes unrhyw bryderon gennym am ei chyflwr, mae'n bosibl y gall trydydd parti gyflawni'r gwaith yma. Fodd bynnag, gwneir hynny yn ôl disgresiwn Dŵr Cymru. Lle bo rhywun heblaw Dŵr Cymru'n cyflawni'r gwaith, bydd hynny'n ddibynnol ar ddarparu asesiadau priodol o risg, datganiadau o'r dull o weithredu a thystiolaeth o hyfedredd yr endid sy'n bwriadu cyflawni'r gwaith. |
| **Cytundeb i adeiladu dros ben/ger carthffos gyhoeddus/draen ochrol** | | Dim Cystadleuaeth | Er bod y gwaith yn agored i gystadleuaeth, mae'r tâl am y gwaith gweinyddu, ac felly nid yw'n agored i gystadleuaeth. |
| **Cystadleuaeth mabwysiadu carthffos (gan gynnwys trefniadau gorsaf bwmpio a draeniau ochrol)** | | Dim Cystadleuaeth | Er bod y gwaith yn agored i gystadleuaeth, mae'r tâl am y gwaith gweinyddu a chomisiynu, ac felly nid yw'n agored i gystadleuaeth. Ni fydd unrhyw daliadau cyfreithiol cysylltiedig yn agored i gystadleuaeth. |

## Hunan-osod

| Tâl | Disgrifiad | Gwasanaeth | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| **Taliadau Hunan-osod** | Cytundeb cyfreithiol | Dim Cystadleuaeth | |
| | Cais am bwynt cysylltu | Dim Cystadleuaeth | |
| | Cysylltiadau | Cystadleuaeth | Er bod y gwaith yn agored i gystadleuaeth, mae'r tâl am y gwaith gweinyddu, ac felly nid yw'n agored i gystadleuaeth. |